Dr Lynn Sloman MBE
Cadeirydd, Y Panel Adolygu Ffyrdd
roadsreview@llyw.cymru

14 Mawrth 2023

Annwyl Aelod o'r Senedd,

**YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID Y PANEL ADOLYGU FFYRDD**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y ddadl ddiweddar am yr Adolygiad Ffyrdd yn y Senedd, i egluro sut y gwnaeth y Panel Adolygu Ffyrdd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod ein gwaith.

Roedd y cynnig ar gyfer dadl y Senedd ar 8 Mawrth 2023 yn honni bod "*diffyg ymgysylltiad gan y Panel Adolygu Ffyrdd â'r cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig, awdurdodau lleol, busnesau a'r trydydd sector ac eraill*".

Fel y dywedodd y Gweinidog yn y ddadl, mewn gwirionedd bu cryn ymgysylltu yn ystod yr Adolygiad Ffyrdd. Roedd y Panel yn gweld ymgysylltu fel ffordd bwysig o lywio ein gwaith. Ein nod oedd i'n hymgysylltu fod yn gyson â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o "gyfranogiad" fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Disgrifir y prif weithgareddau ymgysylltu a gyflawnwyd yn ystod yr Adolygiad yn y tabl sydd ynghlwm â'r llythyr hwn. Roeddent yn cynnwys dros 30 o gyfarfodydd gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Drwy gynnal gweithdai a chyfarfodydd eraill, buom yn ymgysylltu â 14 o awdurdodau lleol a 25 o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sectorau busnes, twristiaeth, cludo nwyddau a logisteg; y trydydd sector; sefydliadau proffesiynol; a phobl ifanc.

Awgrymwyd y dylai'r Panel fod wedi ymgynghori â'r cyhoedd. Fodd bynnag, ymarfer technegol oedd yr Adolygiad Ffyrdd, yn adolygu a oedd cynlluniau'n gyson â pholisi'r Llywodraeth y cytunwyd arno ar ôl i'r cynlluniau gael eu cychwyn. Roedd y dogfennau polisi yr adolygodd y Panel y cynlluniau yn eu herbyn, yn enwedig Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad trylwyr gan Lywodraeth Cymru.

Lle bu cynlluniau ffyrdd yn destun ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus yn flaenorol, ystyriodd y Panel ganfyddiadau'r gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu hyn yn ein hasesiadau cynllun ein hunain. Roeddem o'r farn bod hyn yn well nag ail-ymgynghori ar yr un materion.

Nid oedd argymhelliad y Panel i beidio â bwrw ymlaen â chynllun penodol o reidrwydd yn golygu bod y Panel yn ystyried nad oedd problem i fynd i'r afael â hi. Lle daethom i'r casgliad nad oedd cynllun yn cyd-fynd â'r polisïau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Sero Net Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu, gwnaethom hefyd ystyried a oedd y dystiolaeth gan randdeiliaid ac ymgynghoriadau cyhoeddus

blaenorol yn dangos bod “achos dros newid” – hynny yw, achos dros ymyriad i ddatrys problem trafnidiaeth leol. Yn yr achosion hyn, mae ein hargymhellion yn ei gwneud yn glir y byddai gwaith pellach yn briodol. Gallai hyn yn dal olygu newidiadau i'r seilwaith ffyrdd.

Er y byddai’r Panel yn barod i gydnabod bod wastad mwy y gellir ei wneud i gynnwys rhanddeiliaid, fy marn i fel Cadeirydd yw bod dull gweithredu’r Panel yn gymesur â’r dasg a gyflawnwyd gennym. Fe roddodd ddealltwriaeth ddigonol i ni wneud penderfyniadau gwybodus am aliniad cynlluniau â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Sero Net Cymru a’r Rhaglen Lywodraethu, ac i nodi achosion lle’r oedd angen gwneud rhagor o waith ar broblem trafnidiaeth leol i ddod o hyd i ateb priodol.

Os hoffech drafod hyn ymhellach, byddwn yn hapus i gwrdd â chi.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar dudalen y we y Panel Adolygu Ffyrdd yn [Panel Adolygu Ffyrdd | LLYW.CYMRU]

Yn gywir,

Dr Lynn Sloman MBE
Cadeirydd, Y Panel Adolygu Ffyrdd